Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU


# PROTOCOL RHYNG-ASIANTAETH AR GYFER CYNNAL YMHOLIADAU AMDDIFFYN PLANT ADRAN 47



**Cynnwys** **Tudalen**

| | | |
|---|---|---|
| Siart llif o'r Broses – Delio ag Ymatebion Rhyng-asiantaeth i bryderon diogelu plant | | |
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Egwyddorion Sylfaenol | 4 |
| 3. | Y Broses Dyletswydd i Adrodd | 4 |
| 4. | Fframwaith statudol ar gyfer Ymatebion | 6 |
| 5. | Ymateb i Adroddiadau, Camau Cychwynnol a Chasglu Gwybodaeth | 6 |
| 6. | Diogelu ar unwaith | 8 |
| 7. | Amcanion, Trafodaeth Strategaeth Gychwynnol Ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 | 9 |
| 8. | Cyfarfodydd Strategaeth | 13 |
| 9. | Delio â Gwahaniaethau rhwng Ymarferwyr | 15 |

Y Broses ar gyfer Delio ag Ymatebion Rhyng-Asiantaeth i Bryderon Diogelu Plant



# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r protocol hwn yn amlinellu'r trefniadau gweithio rhwng Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB) a'i bartneriaid i ymateb a gweithio â phlant sydd mewn perygl o niwed sylweddol a'u teuluoedd. Ni fwriedir iddynt fod yn set o weithdrefnau manwl. Mae'r rhain i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- ***Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) ac unrhyw ddogfennau dilynol sy'n deillio o adolygu'r gweithdrefnau hyn - https://diogelu.cymru/***
- ***Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004***
- ***Gweithdrefnau mewnol asiantaethau unigol.***
- ***Y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd.***
- ***Canllawiau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol 2011 Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings***
- ***Arweiniad ar gyfweld dioddefwyr a thystion, ac arweiniad ar ddefnyddio mesurau arbennig***
- ***Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020***

# 2. Egwyddorion Sylfaenol

2.1 Mae holl Aelodau SEWSCB, yn ogystal ag asiantaethau eraill sy'n gweithio i helpu plant a theuluoedd yn cydnabod bod lles plant ac amddiffyn plant yn holl bwysig, ac o'r herwydd, byddant yn gweithio i ddiogelu plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod er mwyn cydymffurfio â'r nodau hyn.

2.2 Rhaid i'r holl asiantaethau ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019), ac unrhyw Ganllawiau a Deddfwriaeth Statudol ar ôl adolygu'r Gweithdrefnau hyn.

# 3. Y Broses Dyletswydd i Adrodd

3.1 Mae gan bob staff ddyletswydd i adrodd am unrhyw bryderon sy'n awgrymu y gallai plentyn fod mewn perygl. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon a godir gan blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, aelodau eraill y teulu a'r gymuned leol, pa un a yw'r rhain yn ddienw ai peidio. Rhaid ymateb i adroddiadau oddi wrth y ffynonellau hyn a rhoi iddynt yr un pwys ag unrhyw adroddiad arall.

3.2 Os bydd gan unrhyw ymarferydd bryderon am les plentyn, dylid ceisio cyngor amserol gan:

- Unigolyn Diogelu Dynodedig eu sefydliad.
- Adran Gwasanaethau Plant Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol.
- Neu Dîm Diogelu'r Awdurdod Lleol.

3.3 Dylid cadw nodiadau clir o'r pryderon a'r cyngor gan eu cadw'n ddiogel yn unol â pholisi'r sefydliad.

3.4 Os ceir pryderon diogelu plant brys, ac os gallai plentyn fod mewn perygl o niwed ar unwaith, dylid cysylltu â'r Heddlu ar 999 yn ddi-oed.

3.5 Os oes pryderon sylweddol yn parhau, dylid gwneud adroddiad llafar i'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y ffôn, gan roi enwau perthnasol a chywir, dyddiadau geni, a manylion y pryderon fel y gellir gwneud ymholiadau ar unwaith a chwblhau asesiadau. Dylai unigolion sy'n gwneud adroddiadau hefyd fod yn ymwybodol y gellid bod angen cysylltu â nhw eto i drafod neu gael eglurhad ynglŷn â'r pryderon yn dilyn yr adroddiad.

3.6 Ar ôl gwneud adroddiad, dylid wedyn llenwi ffurflen Dyletswydd i Adrodd (DTR) â'r manylion llawn cyn pen 48 awr.

3.7 Dylid gwneud penderfyniad ynglŷn â chanlyniad yr adroddiad cyn pen 24 awr ar ôl iddo ddod i law a chofnodi hynny'n briodol.

3.8 Mae fel arfer yn briodol rhannu'r pryderon sydd gan ymarferwyr gyda theuluoedd, a dweud wrthynt am yr adroddiad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, **oni bai** y teimlir y byddai gwneud hynny'n gallu rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o niwed, neu y gallai hyn ymyrryd â'r gwaith o gasglu tystiolaeth, neu ag unrhyw ymholiadau diweddarach. Mae gwybodaeth bellach am geisio cydsyniad i'w gweld yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 2 - https://diogelu.cymru/chi/c2/c2.p16.html

3.9 Dylid cynnal trafodaeth rhwng y sawl sy'n gwneud yr adroddiad a'r Gwasanaethau Plant er mwyn gallu gwneud penderfyniad. Dylid adrodd yn ôl ar ganlyniad y broses benderfynu cyn pen 10 diwrnod gwaith.

## 4. Fframwaith statudol ar gyfer Ymateb

4.1 Mae gan Adran Gwasanaethau Plant y Gwasanaethau cymdeithasol rôl arweiniol statudol i wneud ymholiadau a chydlynu ymateb ym mhob sefyllfa os ceir pryderon ynglŷn â diogelu plant ac mae Adran 47 o'r Ddeddf Plant yn rhoi dyletswydd ar y Gwasanaethau Plant i wneud ymholiadau mewn ymateb i unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol.

4.2 Os yw'r ymholiadau dilynol yn dangos y datgelwyd gweithred droseddol yna dylai'r gweithwyr proffesiynol gysylltu â'r heddlu, ar 999 neu 101.

4.3 Ni all yr asiantaethau arweiniol ond gwneud asesiadau a phenderfyniadau effeithiol os caiff gwybodaeth gywir a manwl ei rhannu rhwng pob asiantaeth. I'r asiantaethau hynny y gofynnir iddynt gyfrannu at ymholiadau Adran 47 sylwer bod dyletswydd i wneud hynny yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 3: rhan 1 - https://diogelu.cymru/chi/c3pt1/c3pt1.p10.html

Wrth ddelio â Chwynion gan deuluoedd am weithrediad y Gynhadledd Amddiffyn Plant ceir protocol y cytunwyd arno'n rhanbarthol y dylid ei ddilyn *Gweithdrefnau Cwynion Byrddau Diogelu Gwent (2020)* https://www.gwentsafeguarding.org.uk/Documents-en/Children/Protocols-and-Procedures/Regional-Documents/Gwent-Safeguarding-Board-Complaints-Procedure.pdf

Dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) mae gofyn i asiantaethau sy'n gysylltiedig â phroses y gynhadledd rannu gwybodaeth briodol a chyfrannu'n llawn.

4.4 Yn unol â'r canllawiau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, dylai'r holl staff sy'n rhan o ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47 gwblhau'r hyfforddiant priodol a bod yn meddu ar y cymhwysedd a'r sgiliau perthnasol yn y maes hwn.

4.5 At hyn, dylai'r holl staff sy'n cynnal ymholiadau/ ymchwiliadau diogelu plant gael Goruchwyliaeth reolaidd â rheolwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn sicrhau bod eu hymarfer a'u penderfyniadau yn cael eu goruchwylio.

## 5. Ymateb i Ddyletswydd i Adrodd, Camau Cychwynnol a Chasglu Gwybodaeth

5.1 Ar ôl i ffurflen Dyletswydd i Adrodd ddod i law yr adran Gwasanaethau Plant bydd asesiad cymesur yn cychwyn. Bydd y wybodaeth gychwynnol a gesglir yn llywio'r penderfyniad o safbwynt y trothwy a wna'r Rheolwr Tîm/Uwch

Ymarferydd cyn pen 24 awr ynglŷn ag a ddylid gwneud ymholiadau amddiffyn plant, ai peidio.

5.2 Dylai'r broses asesu gynnwys casglu gwybodaeth megis:

- Archwilio cofnodion y Gwasanaethau Plant am yr holl wybodaeth berthnasol
- Cadarnhau gwybodaeth gyda'r sawl a wnaeth yr adroddiad
- Cysylltu ag asiantaethau eraill gan gynnwys yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Prawf, y Gwasanaeth Ieuenctid a/neu Awdurdodau Lleol eraill lle bo'n berthnasol, i geisio gwybodaeth berthnasol.

5.3 Dylid rhoi ystyriaeth ynglŷn ag i ba raddau, os o gwbl, y dylid cynnwys aelodau'r teulu/ rhieni yn y cam hwn o'r broses gan gynnwys a ddylid gofyn i'r rhieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant am eu cydsyniad i rannu gwybodaeth. Dylid ceisio caniatâd rhieni oni theimlir y gallai ceisio caniatâd ynddo'i hun yn y cam hwn, roi'r plentyn mewn perygl o niwed pellach. Yn yr amgylchiadau hyn, gall gwybodaeth sy'n berthnasol i amddiffyn plant gael ei rhannu heb gydsyniad rhieni. Rhaid i unrhyw benderfyniad i beidio â cheisio caniatáu y rhieni gael ei gofnodi gyda rhesymau. Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 3, rhan 2, *Gweithio gyda'r plentyn a'r teulu yn ystod ymholiadau a47* - https://diogelu.cymru/chi/c3pt1/c3pt1.p14.html

5.4 Pan fo'r asesiad cymesur wedi cydgasglu gwybodaeth sy'n codi pryderon Amddiffyn Plant dylid cynnull Trafodaeth Strategaeth rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu, ac ymarferwyr perthnasol eraill cyn pen 24 awr (megis Iechyd/ addysg/prawf ayb.) i benderfynu a gyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad Amddiffyn Plant A47, i gynllunio'r ymchwiliad ac ystyried pa asiantaethau a ddylai fod yn ei gynnal.

5.5 Mewn rhai sefyllfaoedd mae'n bosibl y bydd angen gwneud asesiad o risg ac amddiffyn yn gyflym. Diben hyn fydd llywio Trafodaeth Strategaeth rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cynllunio ymholiad Amddiffyn Plant Adran 47 ar unwaith. Gallai hyn fod yn ofynnol dan rai amgylchiadau, gan gynnwys:

- Os ceir perygl i fywyd neu berygl o niwed difrifol, a allai olygu gweithredu ar unwaith i ddiogelu
- Os gwrthodir mynediad i'r plentyn
- Os yw'r rhieni yn llesteirio'r ymholiadau'n fwriadol neu'n eu hatal mewn ffyrdd eraill
- Mae angen cynnal ymweliad ar y cyd o'r herwydd i ymchwilio i drosedd.

5.6 Dylid hefyd ystyried a ddylid holi'r plentyn ynglŷn â'i ddymuniadau a'i deimladau ac os felly, sut, ac a yw ymweliad â'r cartref yn briodol ynteu a fyddai'r plentyn yn cael ei beryglu ymhellach ac y byddai'n rhaid siarad ag ef/hi mewn lleoliad arall er mwyn rhoi i'r plentyn dan sylw bob cyfle i deimlo'n ddiogel a siarad yn agored am y pryderon a godwyd.

5.7 Dylid cynnal Cyfarfod/ Trafodaeth Strategaeth o leiaf 24 awr ar ôl penderfynu bod yna bryderon o safbwynt niwed sylweddol. Os yw'r pryderon yn cyfiawnhau hynny, fe allai Cyfarfod Strategaeth fod yn ofynnol i ystyried y materion risg cymhleth.

5.8 Os gwneir penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen i Drafodaeth Strategaeth, mae angen ystyried pa gamau eraill y gellid eu cymryd i hybu lles y plentyn Dylid cofnodi'r rhesymau am y penderfyniad yn ffeil achos y plentyn.

## 6. Diogelu ar unwaith

6.1 Mewn amgylchiadau lle mae plant mewn perygl o niwed difrifol ar unwaith, y flaenoriaeth i bob asiantaeth yw gweithredu ar unwaith i ddiogelu'r plentyn hwnnw. Os bu'n rhaid i un asiantaeth weithredu ar unwaith i ddiogelu plentyn, rhaid hysbysu'r Gwasanaethau Plant cyn gynted â phosibl o'r camau a gymerwyd er mwyn gallu dechrau'r broses Ymholiad Amddiffyn Plant Adran 47.

6.2 Os bydd plentyn mewn perygl o niwed difrifol neu ar unwaith, dylai'r Heddlu bob amser ystyried defnyddio Pwerau Amddiffyniad yr Heddlu. Gall yr heddlu fynd â phlentyn i le diogel am hyd at 72 awr.

6.3 Fe ellid diogelu'r plentyn o bosibl drwy;

- sicrhau bod y drwgweithredwr honedig yn cael ei symud, fodd bynnag, fe ddylid ystyried y penderfyniad hwn ochr yn ochr ag asesiad o allu'r gofalwr neu'r rhiant arall i amddiffyn y plentyn.
- Mewn achosion eraill, fe allai fod yn angenrheidiol sicrhau bod plentyn yn aros mewn lle diogel neu'n cael ei symud i le o'r fath drwy drefniant gwirfoddol neu drwy bwerau a geir dan Orchymyn Diogelu Brys dan Adran 44 o Ddeddf Plant (89)

Dylid hefyd geisio cyngor cyfreithiol lle bo'n briodol, er mwyn cael Gorchymyn Asesu Plentyn pan fo rhieni / gofalwyr yn gwrthod cydymffurfio

# 7. Amcanion, Trafodaethau Strategaeth Cychwynnol, Ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47

**Amcanion Ymchwiliadau A47**

7.1 Amcan yr Ymchwiliad yw penderfynu a oes angen gweithredu i hybu a diogelu lles y plentyn. Y tasgau penodol yw:

- canfod y ffeithiau a phenderfynu a oes sail i bryderu
- asesu anghenion y plentyn, a gallu'r rhieni/gofalwyr a'r teulu ehangach i fodloni'r anghenion hynny
- adnabod ffynonellau a lefelau'r risg i'r plentyn, ac i bob plentyn arall yn y teulu/aelwyd(ydd)
- rhoi ystyriaeth i hil, crefydd, rhyw y plentyn ac unrhyw anghenion ychwanegol, wrth lunio cynllun cychwynnol
- gwneud ymdrechion pendant i ganfod a chofnodi dymuniadau a theimladau'r plentyn
- penderfynu ar gamau i ddiogelu – h.y., ystyried a oes angen asesu a sicrhau lle diogel o fewn y teulu, neu gyda pharti allanol er mwyn diogelu'r plentyn – i benderfynu a oes unrhyw gamau eraill (e.e. cymorth/gwasanaethau) yn ofynnol i hybu a diogelu lles y plentyn
- ystyried a yw archwiliad meddygol amddiffyn plant yn ofynnol, a
- chanlyniad A47 i lywio'r penderfyniadau tymor hwy ar gyfer y plentyn.

7.2 Dylai Gweithiwr Cymdeithasol bob amser siarad â'r plentyn. Dylai'r plentyn bob amser gael ei alluogi i gyfranogi'n llawn yn y broses a47, gan gynnwys pan fo gan blentyn anabledd, ac os felly dylid cyfathrebu â nhw yn y cyfrwng o'u dewis er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gyfranogi yn y broses. Mewn amgylchiadau lle mae gan blentyn anghenion ychwanegol, rhaid ystyried cynnwys ymarferydd sydd ag arbenigedd mewn ymgysylltu â phlant ag anghenion ychwanegol penodol. Gweler hefyd 8.9 *Cynnig Eiriolaeth.*

7.3 Rhaid hefyd rhoi ystyriaeth i gyfweld/ siarad â holl blant y teulu / yr aelwyd – dylai hyn ddigwydd bob amser os mai rhiant/ gofalwr yw'r camdriniwr honedig.

7.4 Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth i weld / cyfweld unrhyw blentyn arall y mae gan y drwgweithredwr honedig gryn dipyn o gysylltiad ag ef/hi.

7.5 Mewn amgylchiadau pan ofynnir caniatâd gan yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant i siarad â phlentyn ar ei ben ei hun a bod yr unigolion hynny'n gwrthod, neu os na ellir cael caniatâd ar ôl cymryd camau rhesymol i'w gael, rhaid i'r Gwasanaethau Plant, a chynrychiolwyr cyfreithiol asiantaethau, ystyried yn ofalus y camau nesaf sy'n ofynnol, ac fe allai'r rheini gynnwys ymgeisio am Orchymyn Amddiffyn Brys neu Orchymyn Asesu Plentyn.

7.6 Bydd y dull o ddelio â'r ymholiadau wedi cael ei ddynodi'n bennaf gan y Cyfarfod/y Drafodaeth Strategaeth (gweler uchod) a dylid dilyn y camau gweithredu hynny y cytunwyd arnynt.

**Trafodaeth Strategaeth Gychwynnol**

7.7 Pryd bynnag y ceir achos rhesymol i amau bod plentyn yn dioddef, neu yn debygol o ddioddef niwed sylweddol, dylid cynnal trafodaeth strategaeth gan gynnwys y Gwasanaethau Plant, yr Heddlu (Uned Amddiffyn yr Heddlu) a'r uned gyfeirio (ynghyd ag aelod priodol o'r Tîm Pediatrig, fel sy'n briodol).

7.8 Y Gwasanaethau Plant sy'n gyfrifol am gynnull y drafodaeth strategaeth. Fel yr asiantaeth arweiniol, cyfrifoldeb Uwch Ymarferwyr / Rheolwyr Tîm y Gwasanaethau Plant yw cadeirio'r drafodaeth.

7.9 Diben y drafodaeth strategaeth yw penderfynu pa gamau sy'n ofynnol i ymchwilio i'r pryderon a godwyd. Bydd y drafodaeth strategaeth yn cynllunio'r ymateb cychwynnol i'r pryderon amddiffyn plant a bydd yn cytuno a ddylid cychwyn ymholiadau Adran 47, a sut, pryd a gan bwy, y dylai'r ymholiadau gael eu gwneud, ac a gânt eu gwneud gan un asiantaeth neu a ydynt yn dod yn ymchwiliad ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu. Gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 3, rhan 1 - https://diogelu.cymru/chi/c3pt1/c3pt1.p8.html

7.10 Materion i'w trafod mewn Trafodaethau a Chyfarfodydd Strategaeth

- Rhannu gwybodaeth [gan gynnwys trafodaeth lawn ar y wybodaeth gyfeirio wreiddiol].
- Penderfynu a ddylai Ymholiadau amddiffyn plant Adran 47 a /neu ymchwiliad troseddol gael eu cychwyn neu barhau os ydynt eisoes wedi dechrau.
- Os yw Ymchwiliad Troseddol yn ofynnol neu os yw wedi dechrau, dylid cynllunio ar y cyd â'r Canllawiau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau ***Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings*** Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwnnw, dylid ystyried egwyddorion cynnal cyfweliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau (ABE), sef cydgynllunio ar gyfer yr ymweliadau cychwynnol gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, gallu'r plentyn i gyfranogi, cwblhau'r llyfryn ABE.
- Cytuno ar yr amserlen ar gyfer Ymholiadau Adran 47
- Cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer Ymholiadau Adran 47
- Cytuno pa gamau sy'n angenrheidiol ar unwaith i ddiogelu'r plentyn, a/neu i ddarparu gwasanaethau interim tra bo'r ymholiadau'n mynd rhagddynt
- Penderfynu a yw'n ofynnol cymryd camau cyfreithiol
- Cynllunio sut dylid delio â'r ymholiadau, gan gynnwys yr angen am archwiliad meddygol / asesiad a thriniaeth. Dylid cynllunio hwn gyda meddyg wedi'i hyfforddi'n briodol, Paediatregydd fel arfer. Bryd hynny,

dylai’r holl blant perthnasol gael eu hystyried o safbwynt asesiad meddygol.

- Ystyried anghenion a diogelwch plant eraill y gallai hyn effeithio arnynt, gan gynnwys brodyr a chwiorydd a phlant eraill sydd mewn cysylltiad â’r camdriniwr honedig ac a ddylid ymestyn yr ymholiad i gynnwys unrhyw rai o’r plant hyn.
- Penderfynu sut caiff gwybodaeth ei rhannu â’r plentyn a’r teulu oni bai y gallai rhannu gwybodaeth yn y fath fodd roi’r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol neu beryglu ymchwiliadau’r Heddlu i unrhyw droseddau honedig.
- Cytuno pa ymarferwyr nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth y dylid eu hysbysu yn y cam hwn
- Ystyried a yw Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ofynnol
- Cytuno ar y broses ar gyfer adolygu
- Ystyried a yw cyfarfod strategaeth ymarferwyr yn ofynnol

7.11 Rhaid i’r penderfyniad i beidio â rhannu gwybodaeth a’r rhesymau am hynny gael eu cofnodi.

**Ymholiadau Amddiffyn Plant Adran 47**

*Ymholiadau Adran 47 un Asiantaeth*

7.12 Ar ôl rhannu gwybodaeth i ddechrau yn y Drafodaeth Strategaeth, os nad oes rôl bellach i’r Heddlu nac agweddau troseddol y mae angen ymchwilio iddynt, gall y Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal Ymholiadau Adran 47 Un Asiantaeth. Nid yw hyn yn golygu na all y Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal ymweliadau â’r plentyn neu’r teulu gydag asiantaethau partner priodol megis iechyd neu addysg. Fodd bynnag, saif y cyfrifoldeb am yr ymchwiliad a’r canlyniad â’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

*Ymholiadau Adran 47 Asiantaethau ar y Cyd*

7.13 Y Gwasanaethau Plant a’r Heddlu, gyda’i gilydd yn gwneud ymholiadau cychwynnol ac yn siarad â phlant, rhieni a thystion. Bydd yr Heddlu a’r Gwasanaethau Plant bob amser yn cynnal ymchwiliadau adran 47 ar y cyd mewn ymateb i unrhyw honiadau bod trosedd wedi’i gyflawni. Fe allai’r wybodaeth a gesglir gael ei defnyddio mewn erlyniad troseddol ac felly mae’n rhaid glynu wrth y canllawiau Sicrhau’r Dystiolaeth Orau. Os yw’r Heddlu neu’r gwasanaethau Plant yn anghytuno ar yr angen i gynnal ymchwiliad adran 47 ar y cyd, rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu’r plentyn neu’r person ifanc. Fodd bynnag, rhaid uwch-gyfeirio hyn at Arweinyddion Diogelu yn y priod asiantaethau fel gellir ystyried atebion.

*A oes gofyn cael Archwiliad Meddygol*

7.14 Dylid bob amser ystyried yr angen i wneud archwiliad meddygol ar bob plentyn y ceir pryder amdano. Dylid hefyd ystyried yr angen i blant eraill ar yr aelwyd neu sydd mewn cysylltiad â'r drwgweithredwr honedig gael archwiliad meddygol.

7.15 Dylai'r unigolyn sy'n cydlynu'r Ymchwiliad drafod yr angen am archwiliad meddygol gyda Phaediatregydd sydd â'r profiad a'r cymwysterau priodol neu â meddyg/ archwiliwr meddygol fforensig a chytuno ar amseriad a lleoliad yr archwiliad gan roi ystyriaeth i fuddiannau gorau'r plentyn.

7.16 Er nad yw archwiliad meddygol yn ofynnol ym mhob Ymholiad Amddiffyn Plant Adran 47, mae angen ei ystyried pa un a oes gan y plentyn unrhyw anafiadau amlwg neu weladwy neu os yw'n ymddangos fel petai wedi'i esgeuluso. Ni ddylid ond hepgor yr archwiliad meddygol os yw'r rhai sy'n delio â'r ymholiad yn fodlon y gallant gyflawni dibenion yr ymholiad hebddo. Rhaid i hyn gynnwys trafod gyda'r aelod priodol o'r Tîm Pediatrig.

7.17 Diben yr asesiad meddygol mewn Ymholiadau Adran 47 yw:

- Sicrhau bod iechyd y plentyn yn cael ei asesu'n gyfannol
- Tawelu meddwl y plentyn ynglŷn â'i iechyd a'i les
- Cael asesiad o arwyddion posibl o gamdriniaeth
- Sicrhau y nodir unrhyw anafiadau neu arwyddion o esgeulustod at ddibenion tystiolaeth
- Diogelu'r dystiolaeth fforensig

7.18 Mae gofyn bod yn hyfedr i wneud asesiadau meddygol ym maes amddiffyn plant. Dylai'r archwiliad gael ei wneud gan Baediatregydd sydd â'r arbenigedd priodol mewn camdriniaeth rywiol mewn plant a/neu Archwiliwr Meddygol Fforensig (FME) os oes angen casglu tystiolaeth fforensig.

7.19 Fel arfer, bydd yr archwiliad yn digwydd ar ôl siarad â'r plentyn, oni bai:

- y ceir anaf difrifol sydd angen ei drin
- os oes angen gwneud archwiliad i ganfod tystiolaeth fforensig bosibl [e.e. oni amheuir bod ymosodiad corfforol neu rywiol wedi digwydd yn y 72 awr flaenorol]

7.20 Cyfrifoldeb y meddyg sy'n archwilio yw cael cydsyniad gwybodus gan unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu'r plentyn os yw'n ddigon hen a deallus. Pan na roddir cydsyniad rhiant, ac os tybir na all y plentyn roi cydsyniad drosto ei hun, yna dylid ceisio cyngor cyfreithiol os oes gofyn gwneud cais i'r llys.

# 8. Cyfarfodydd Strategaeth

8.1 Mewn rhai amgylchiadau, fe allai'r drafodaeth strategaeth gychwynnol gytuno bod cyfarfod strategaeth yn ofynnol yn ddibynnol ar anghenion / cymhlethdod yr achos. Y Rheolwr Tîm/Uwch Ymarferydd yn y Gwasanaethau Plant sy'n gyfrifol am gynnull y cyfarfod. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

8.2 Yn yr amgylchiadau canlynol, caiff cyfarfod strategaeth **bob amser** ei gynnull:

- Pryderon ynglŷn â cham-drin rhywiol, gan gynnwys camfanteisio rhywiol posibl, masnachu neu os yw plentyn yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol
- Pryderon ynglŷn ag esgeulustod, anaf corfforol, camdriniaeth emosiynol, a phryderon cyn geni
- Pryderon y gwnaed adroddiad bod plentyn ar goll o'r cartref, dylid defnyddio barn broffesiynol i ystyried yr angen am drafodaeth/ cyfarfod strategaeth drwy ddadansoddi risg, amgylchiadau'r episod pan aeth ar goll, ers faint y bu'r plentyn ar goll ac adroddiadau blaenorol ei fod wedi mynd ar goll.
- Pan ystyrir bod plentyn sydd ar goll mewn perygl o niwed mawr/ ar unwaith.
- Plant sy'n derbyn gofal y gwneir adroddiad eu bod ar goll, rhaid ystyried barn broffesiynol ar sail bregusrwydd a risg i'r plentyn/ person ifanc a dylid cynnal trafodaeth/cyfarfod strategaeth cyn pen 24 awr o'r penderfyniad i gynnal un. Ar gyfer plant sy'n dal ar goll am 3 diwrnod olynol, rhaid cynnal trafodaeth/cyfarfod strategaeth ar 3$^{ydd}$ diwrnod yr episod, heb ystyried yr asesiad o lefel y bregusrwydd neu'r risg a berir i'r plentyn/ person ifanc.
- Camdriniaeth amryfal neu wedi'i threfnu.
- Honiad o gamdriniaeth am ymarferydd neu gan unigolyn sydd mewn swydd gyfrifol.
- Pryderon bod plentyn yn ddarostyngedig i salwch ffug neu salwch gwneud (gweler dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru, Diogelu Plant y mae eu Salwch wedi'i Ffugio neu'i Achosi gan eraill (2008). Mewn achosion lle amheuir Salwch wedi'i Ffugio ni ddylid hysbysu'r rhieni o bryderon y gweithiwr proffesiynol.
- Digwyddiad cam-drin domestig sylweddol neu ailadroddus pan fo'r plentyn yn bresennol yn yr aelwyd.
- Pan mae'r Heddlu wedi defnyddio Pwerau Brys Amddiffyniad yr Heddlu i fynd â phlentyn oddi ar riant neu ofalwr.
- Pan fo teulu sy'n destun Ymholiad Adran 47 sydd heb ei gwblhau yn symud i ffwrdd o'r Awdurdod Lleol perthnasol, neu pan fo teulu o ardal arall sy'n destun Ymholiad Adran 47 sydd heb ei gwblhau yn symud i'r Awdurdod Lleol perthnasol.
- Marwolaeth annamweiniol plentyn ar aelwyd lle mae plant eraill yn dal i fyw.
- Pan fo MAPPA (Trefniadau Aml-asiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) wedi gweld risgiau posibl i blentyn penodol.
- Mewn sefyllfaoedd pan gaiff yr arfer o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ei amau.
- Mewn sefyllfaoedd lle ceir pryderon ynglŷn â Phriodas dan Orfod a/neu Drais ar sail Anrhydedd.

8.3 Os na chaiff cyfarfod strategaeth ei gynnull yn yr amgylchiadau uchod, dylid cofnodi'r rhesymau am hyn.

8.4 Ni fyddai Trafodaethau Strategaeth pellach ond yn cael eu cynnal:

- Os cafodd y mater ei ohirio i aros am archwiliad meddygol amddiffyn plant, bod y wybodaeth hon yn awr ar gael a bod angen trafod ymhellach.
- Os yw'r mater yn gymhleth dros ben a / neu fod gwybodaeth bellach sylweddol i'w thrafod.
- Os cynhelir Ymholiad Adran 47 un asiantaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, dylid hysbysu'r Heddlu drwy'r e-bost o ganlyniad yr ymholiad a47 un asiantaeth a, lle bo'n berthnasol, fod penderfyniad wedi'i wneud i gynnal ICPCC.

8.5 Penderfyniadau Ymholiadau Adran 47: gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2014)

Penderfyniad 1: Ni chadarnhawyd y pryderon o niwed sylweddol – *Ni chadarnhawyd y pryderon diogelu*, *ond dylid ystyried a oes gan y plentyn anghenion gofal a chymorth na chânt eu bodloni. Felly, argymell asesiad* o *anghenion gofal a chymorth dan adran 20 o Ddeddf Gwasanaethau Cymru a Llesiant Cymru (2014) neu wneud adroddiad i'r gwasanaethau ataliol. Dylai'r penderfyniad gael ei gadarnhau gan y rheolwr perthnasol a dylid anfon llythyr 'dim camau pellach' at y rhieni.*

Penderfyniad 2: Cafodd y pryderon o niwed sylweddol eu cadarnhau ond nid yw'r plentyn yn dal i fod mewn perygl o niwed sylweddol – *Yn yr hen weithdrefnau, pan welwyd bod yr uchod yn wir, awgrymwyd y dylid ystyried yn ofalus benderfyniad i beidio â bwrw ymlaen i gynhadledd, a byddai'n rhaid i unigolyn dynodedig gyda'r cymwysterau priodol yn y gwasanaethau cymdeithasol gymeradwyo'r penderfyniad. Mae'n ymddangos bod hwn wedi'i hepgor o'r gweithdrefnau newydd.*

Penderfyniad 3: Cadarnhawyd y pryderon, a bernir bod y plentyn yn wynebu neu mewn perygl o gael ei gam-drin, ei niweidio, neu ei esgeuluso – *Risg barhaus o niwed sylweddol, felly dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gynnull cynhadledd amddiffyn plant*

**Cofnodi**

8.6 Bydd pob asiantaeth yn cofnodi ei rhan ym mhroses yr Ymholiadau Adran 47, o'r Drafodaeth Strategaeth i'r Canlyniad, yn unol â dogfennaeth a gweithdrefnau ei hasiantaeth ei hun. Cedwir y ddogfen ar ffeil y plentyn.

8.7 Os cwblhawyd dogfen Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, bydd yr Heddlu yn cadw hon. Rhaid i'r Heddlu ddarparu copïau o'r Cyswllt Cychwynnol â'r plentyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhaid eu cadw ar ffeil y plentyn

8.8 Os bydd Tîm Dyletswydd Brys De-ddwyrain Cymru yn cael trafodaeth strategaeth, yna bydd yn llenwi pro fforma cofnod o drafodaeth strategaeth ac yn ei anfon i'r awdurdod perthnasol ar yr un diwrnod.

Gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 3, rhan 1: *Cofnodi gwybodaeth 47 a phenderfyniadau allweddol -* https://diogelu.cymru/chi/c3pt1/c3pt1.p13.html

**Cynnig Eiriolaeth**

8.9 Cymaint â phosibl, dylai'r plentyn, y rhieni neu'r gofalwyr gael eu cynnwys ym mhroses yr ymholiadau a47. Gall cael mynediad i eiriolaeth annibynnol eu helpu i gyfranogi'n effeithiol.

Dylid rhoi i rieni a gofalwyr fanylion sut gallant gael mynediad i gyngor, eiriolaeth, a chefnogaeth drwy ffynonellau annibynnol cyn gynted â phosibl.

Yn yr un modd, dylid cynnwys plant a phobl ifanc gydol proses yr ymholiadau a47, a dylid cydnabod bod gan blant a phobl ifanc yn aml amgyffrediad clir o'r hyn y mae angen ei wneud i sicrhau eu diogelwch a'u lles. Dylid gwrando ar blant ym mhob cam o'r broses amddiffyn plant a gall eiriolaeth annibynnol eu helpu i gyfranogi'n effeithiol. Felly, dylid rhoi i blant hefyd wybodaeth ar sut i gael mynediad i wasanaethau eiriolaeth a ffynonellau cymorth eraill.

I'w gwneud yn haws i'r plentyn, y rhieni, a gofalwyr gyfranogi'n effeithiol, dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol, o leiaf, egluro'r broses Adran 47, y canlyniadau posibl a sut i gael mynediad i'r broses gwyno o safbwynt lefel y ddealltwriaeth, a dylai ymarferwyr fod yn barod i ateb cwestiynau a ofynnir yn agored, oni fyddai gwneud hynny yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch a lles plentyn. Gwelwyd bod darparu manylion ysgrifenedig am yr uchod i rieni/ gofalwyr yn effeithiol dros ben, unwaith eto o safbwynt lefel y ddealltwriaeth ac unrhyw ofynion penodol o ran cyfathrebu/iaith.

Gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 3, rhan 2, *Gweithio gyda'r plentyn a'r teulu yn ystod ymholiadau a47 - https://diogelu.cymru/chi/c3pt1/c3pt1.p14.html?highlight=advocacy*

## 9. Datrys Anghytundebau Proffesiynol

9.1 Mae gan ymarferwyr sydd naill ai ddim yn derbyn gwybodaeth am ganlyniad archwiliad Ymholiad Adran 47 ac/neu yn anhapus am y penderfyniadau a gymerwyd i amddiffyn plentyn, **DDYLETSWYDD BARHAUS** i ganlyn datrysiad addas i'w pryderon. Yn y lle cyntaf, dylent gyflwyno'r achos i'w rheolwr llinell a chysylltu â'r Rheolwr Tîm Gwasanaethau Plant/Uwch Ymarferydd er mwyn ceisio datrys y problemau. Os na ellir datrys y broblem, bydd y Cydlynydd Amddiffyn Plant o fewn Gwasanaethau Plant yn trafod ac

yn fformiwleiddio penderfyniad consensws a gytunwyd arno. Dylid ystyried galw'r protocol Datrys Anghytundebau Proffesiynol i rym mewn achosion lle na all anghytundebau gael eu datrys mewn modd anffurfiol. Gweler *Multi Agency Practice Guidance Resolving Professional Differences* gan Diogelu Gwent - https://www.gwentsafeguarding.org.uk/Documents-en/Children/Protocols-and-Procedures/Regional-Documents/GWENT-Multi-Agency-Practice-Guidance-Resolving-Professional-Differences-2018.pdf

**For Information Advice and Assistance Service Children**

| | | |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 01495 315700 | dutyteam@blaenau-gwent.gov.uk |
| Caerffili | 0808 100 1727 | contactandreferral@caerphilly.gov.uk |
| Sir Fynwy | 01291 635 669 | Childduty@monmouthshire.gov.uk |
| Casnewydd | 01633 656656 | Children.duty@newport.gov.uk |
| Torfaen | 0800 328 4432 | Socialcaretorfaen@torfaen.gov.uk |

**Geirfa**

**Adroddiad** – Mae adrodd i'r gwasanaethau cymdeithasol fel arfer yn golygu cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd (a elwir yn MARF gynt)

**Unigolion sy'n Gwneud Adroddiadau –** Yr ymarferydd neu'r aelod o'r cyhoedd sy'n hysbysu gwasanaethau cymdeithasol am unrhyw bryderon ynglŷn ag achosion posibl o gam-drîn, esgeuluso oedolyn sydd mewn perygl neu y gallai gael ei niweidio, ei gam-drîn neu esgeuluso plentyn

**Ymarferydd –** Mae'r term 'ymarferydd' wedi ei ddefnyddio fel term blanced i ddisgrifio unrhyw un sydd mewn cyflogaeth â thâl yn ogystal â gwirfoddolwyr di-dâl